

Gwresogyddion ystafell

Beth yw eich dewis gorau ar gyfer gwres ychwanegol?

Mae gwresogyddion ystafell yn cael eu defnyddio i gynhesu gofod bach ac maent fel arfer unai'n gludadwy neu yn sownd yn y wal. Mae'r rhan fwyaf o wresogyddion yn defnyddio nwy neu drydan.

Offer defnyddiol yw gwresogyddion ystafell sy'n darparu gwres mewn un man sydd yn arbennig o addas mewn ystafell ar gyfer pobl sydd yn hen, yn sâl neu sydd â symudedd cyfyngedig. Ond gallant fod yn ddrud. Maent yn defnyddio llawer o nwy neu drydan os ydynt yn cael eu defnyddio i wresogi ystafell yn gyflym, ac maent yn debygol o gostio llawer mwy na system wres canolog.

Yn ddelfrydol, dim ond fel ffynhonnell eilradd neu atodol o wres y dylid defnyddio gwresogyddion ystafell. Hyd yn oed bryd hynny, dylech ddefnyddio'r gwresogydd cywir ar gyfer y gofod rydych am ei gynhesu a rheoli'r tymheredd a'r amser y bydd y gwresogydd ymlaenyn ofalus. Mae gwresogyddion sydd â rheolyddion fel hyn yn aml yn rhatach i'w rhedeg

Pa fath o wresogydd ystafell?

Pan fyddwch yn penderfynu pa fath o wresogydd ystafell i'w ddefnyddio, ystyriwch yn gyntaf at ba bwrpas rydych ei angen.

1) Cynhesu ystafell gyfan am ychydig o oriau neu fwy

At y perwyl hwn, dylech ddefnyddio gwresogydd darfudol. Mae'r rhain yn gweithio drwy gynhesu'r aer sydd agosaf atynt sydd wedyn yn naturiol yn cylchdroi'n gyson ar draws yr ystafell. Mae gwresogyddion darfudol yn ddewis da os ydych angen ffynhonnell wresogi ychwanegol i gynhesu ystafell am ychydig o oriau ar y tro. Maent yn cymryd ychydig mwy o amser i weithio, ond gall gwresogydd o'r math hwn gael ei reoli'n hawdd gydag amseredd a thermostat, fel nad ydych yn gorgynhesu'r ystafell ac rydych yn arbed arian. Mae modd cael gwresogyddion darfudol trydan a nwy, ac mae rheiddiadoron llawn olew hefyd yn fath o wresogydd darfudol.

2) Cynhesu ystafell am gyfnod byr o amser

Am gynhesu'r ystafell sydyn, neu gynhesu'r ystafell mwy cyfeiriol, dylech ddefnyddio gwresogyddion ffan neu belydrol. Mae'r rhain yn gweithio'n sydyn ac yn ddefnyddiol os ydych ond am



Mae gwresogyddion ystafell halogen trydanol yn eithaf rhad i'w rhedeg

gynhesu rhan o ystafell am gyfnod byr. Yn wahanol i wresogyddion darfudol, nid ydynt yn cynhesu'r holl ystafell i'r un lefel, felly nid ydynt yn creu'r un lefel o gyfforddusrwydd. Nid oes ganddynt yn aml amseredd na thermostat sy'n golygu eu bod yn debygol o fod yn ddewis drytach dros amser. Ffuriau o wresogyddion pelydrol yw gwresogyddion halogen, tanau bar trydanol, tanau nwy agored a thanau nwy potel. Yn dechnegol, nid ydynt yn cynhesu'r aer (fel gwresogyddion darfudol) ond yn hytrach yn trosglwyddo gwres drwy donnau electromagneteg yn yr un ffordd ag y mae tân coed yn cynhesu ystafell a'r haul yn cynhesu'r ddaear.

Gwresogyddion ystafell trydanol

Mae'r rhain yn cynnwys tanau bar 'pelydrol' (isod, llun 1), gwresogyddion aer poeth (2), rheiddiadoron llawn olew (4), a gwresogyddion halogen (5). Maent oll yn ddrud i'w rhedeg ac nid ydynt yn addas fel prif ffynhonnell o wres.

Parêd poeth (trydan)

- 1) tân bar pelydrol
- 2) gwresogydd darfudol
- 3) gwresogydd ffan
- 4) rheiddiador llawn olew
- 5) gwresogydd halogen



3



1



2



4



5

Ystyrir gwresogyddion trydan i fod yn 100% effeithiol (h.y. maent yn troi'r holl drydan maent yn ei ddefnyddio i wres) ond mae rhai yn fwy drud i'w rhedeg nag eraill gan eu bod yn darparu mwy o wres. Mae gwresogyddion trydan gyda graddfa bŵer uwch (mewn watiau) yn darparu mwy o wres ond yn ddrytach i'w rhedeg.

Gwresogyddion ystafell trydanol

	Allbwn gwres arferol	Cost rhedeg fesul awr		
		Mesurydd safonol	Mesurydd Economy 7	
			Nos	Dydd
Tân bar pelydrol	2 kW	28p	13p	36p
Gwresogydd halogen	1.2 kW	17p	8p	22p
Gwresogydd darfudol	2 kW	28p	13p	36p
Gwresogydd ffan	2 kW	28p	13p	36p
Rheiddiadur llawn olew	1.5 kW	21p	10p	27p

NB costs vary as electricity prices change

Y gwresogyddion trydanol rhataf i'w rhedeg yw gwresogyddion halogen a rheiddiaduron llawn olew, a thanau bar a gwresogyddion ffan yw'r drytaf. Os oes raid i chi ddefnyddio gwresogydd ystafell trydanol, peidiwch â'i ddefnyddio os nad yw'n angenrheidiol ac ystyriwch y canlynol:

- Defnyddiwch amserydd os oes ganddo un, ac os nad oes, gallwch brynu plwg switsh amser.
- Os oes thermostat ar y gwresogydd sicrhewch nad yw wedi ei droi'n rhy uchel.
- Os ydych ar 'Economy 7', ceisiwch beidio defnyddio gwresogyddion ystafell trydanol yn ystod oriau brig. Mae'n well defnyddio gwresogyddion stôr nos sy'n gwneud eu gwaith dros nos.

Gwresogyddion ystafell nwy

Mae'r rhain yn cynnwys tanau nwy traddodiadol (6) gwresogyddion darfudol (7), tanau nwy agored (8) a gwresogyddion potel nwy (9). Gellir rhedeg pob un ar nwy drwy brif gyflenwad neu nwy petrolewm hylifedig (LPG). Nid oes angen simneiau ar wresogyddion nwy potel, gwresogyddion darfudol nwy na stofiau paraffin. Fodd bynnag, gallai'r anwedd dŵr y maent yn ei gynhyrchu achosi cyddwysiad a fydd yn arwain at leithder a phroblemau llwydni os nad yw'r ystafell wedi ei hawyru'n dda.



Parêd poeth (nwy) 6) tân nwy pelydrol, **7)** gwresogydd darfudol nwy, **8)** tân nwy agored, **9)** tân nwy potel

Gwresogyddion ystafell nwy

	Allbwn gwres	Graddfa effeithlonrwydd	Cost rhedeg fesul awr		Cost fesul uned o wres	
			Nwy drwy brif gyflenwad	LPG*	Nwy drwy brif gyflenwad	LPG*
Tân nwy pelydrol (ar ei uchaf)	5KW	63-81%	25-32p	41-54p	5-6p	8-10p
Tân nwy pelydrol (ar ei isaf)	1KW	40-65%	6-10p	10-17p	6-10p	10-17p
Gwresogydd darfudol nwy (ar ei uchaf)	3kW	60-85%	14-20p	23-33p	5-7p	8-12p
Tân nwy darluniol agored	2.5kW	20-50%	20-50p	33-84p	8-20p	13-33p
Tân nwy caeedig	4kW	60-80%	20-27p	33-45p	5-6p	8-10p
Tân nwy potel	4Kw	100% *	n/a	66p	n/a	17p

* tybir cyflenwad LPG propan ar wahân i nwy potel lle tybir defnydd o sylindr Butane 15Kg



3 St Peter's Court
Bedminster Parade
Bristol BS3 4AQ

0117 934 1400
www.cse.org.uk
info@cse.org.uk

Charity: 298740
Founded: 1979

Cynhyrchwyd y daflen hon yn wreiddiol gan y Ganolfan ar gyfer Ynni Cynaliadwy, elusen genedlaethol (rhif 298740) sy'n helpu pobl i newid eu hagwedd a'u harferion o ran ynni

Mae ein Tîm Ynni Cartref yn cynnig cyngor am ddim ar y defnydd o ynni domestig i ddeiliaid tai ym Mryste a Gwlad yr Haf (gan gynnwys awdurdodau unedol Gogledd Gwlad yr Haf a Chaerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf).

Phone 0800 082 2234

Email home.energy@cse.org.uk

Web www.cse.org.uk/loveyourhome

 www.facebook.com/EnergySavingAdvice

 www.twitter.com/@cse_homeenergy